GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Asesu Ffurfiannol

## Creu hinsawdd ac diwylliant addysgu a dysgu llwyddiannus

# Dim ond holi…

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**Pam ddewisoch chi yrfa fel athro/ athrawes?**

**Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich gwaith? Beth sy'n rhoi pleser i chi ?**

**Beth ydy eich gwerthoedd chi fel athro/athrawes?**

# Dim ond holi…

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**Sut beth ydy bod yn berson ifanc yn eich dosbarth/ eich gwersi ? Beth am ddosbarthiadau gwahanol yn eich ysgol ?**

**Sut le ydy eich dosbarth/iadau? Ydy'r dosbarth fel yr hoffech iddo fod? Ydy o'n lle braf i chi fel athro/athrawes?**

**Pa mor bwysig i chi'n bersonol/ fel ysgol ydy dal i ddysgu/ ymchwilio?**

# Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol GwE a Shirley Clarke

## Haen 1 ( Ion 2018- Tach 2018)

Timau Ymchwil gweithredol Asesu Ffurfiannol dan arweiniad Shirley Clarke

## Haen 2 ( Medi 2018- Medi 2019)

Timau Ymchwil gweithredol Asesu Ffurfiannol dan arweiniad ysgolion Haen 1 a GwE yn dilyn gwaith Shirley Clarke

## Haen 3 ( Medi 2019- Medi 2020.... 2021)

Gweddill ysgolion y rhanbarth.

Timau Ymchwil gweithredol Asesu Ffurfiannol dan arweiniad ysgolion Haen 2, H1 a GwE yn dilyn gwaith Shirley Clarke

GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Nodau

- Codi a chysoni ansawdd addysgu ar draws y rhanbarth ac o fewn ysgolion
- Adeiladu cynhwysedd ac arbenigedd ar draws y rhanbarth
- Ffurfio timau o athrawon i fod yn ymchwilwyr gweithredol, gyda'r disgwyliad y byddant yn arbrofi gydag asesu ffurfiannol yn ystod a thu draw i'r prosiect, ac adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i athrawon ar ganfyddiadau ymchwil diweddar sy'n sail i asesu ffurfiannol
- Cynnal athrawon wrth iddynt adolygu ac addasu eu harferion presennol a datblygu eu hyder a'u harbenigedd yn y maes fel y gallant, yn y pen draw, arwain eraill.
- Rhannu a dathlu llwyddiannau a'r angerdd am addysgu

***Hyn oll gyda llygaid ar Gwricwlwm i Gymru***

# Niferoedd

| | Ysgolion | Athrawon |
|---|---|---|
| Haen 1 | 27<br>*(22+5)* | 54 |
| Haen 2 | 193<br>*(168+22+3)* | 386 |
| Haen 3 | *140*<br>(117+17+7) | *261* |
| *CYFANSWM* | *360* | *701* |

*Cynhadledd penaethiaid Mawrth 2019 - 360 yn bresennol*

- **89% o ysgolion y rhanbarth/ region's schools**
- **17,500 disgybl/pupils**
- 96% Cynradd/Primary
- 80% Uwchradd / Secondary
- 70% Arbennig / Special

**Formative Assessment is…**

The process used by teachers and students to recognise and respond to student learning in order to enhance that learning **<u>during the learning</u>**

*Cowie & Bell 1999*

***The most important single factor influencing learning is what the learner already knows. Ascertain this and teach him accordingly.’***

***Ausubel (1968)***


Partneriaid Trafod
Adborth
DD a MPLl
Cwestiynu
Disgyblion yn Cynllunio
Dysgwyr Annibynnol
Hinsawdd dosbarth

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# 4 diben Cwricwlwm i Gymru



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# 12 egwyddor addysgegol

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Dibenion / pwrpas cyffredinol y cwricwlwm | 2. Ymdrechu'n barhaus | 3. Cymysgedd o ddulliau | 4. Datrys problemau, creadigol a beirniadol |
| 5. Datblygu ar wybodaeth flaenorol ac ennyn diddordeb | 6. Cyd-destunau dilys | 7. Asesu ar gyfer Dysgu | 8. Cysylltiadau oddi mewn ac ar draws MDaPh |
| 9. Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd | 10. Cymell i gymryd cyfrifoldeb | 11. Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 12. Hybu cydweithio |

# Safonau Proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion yng Nghymru




WHEN THE ROOT IS DEEP
THERE IS NO REASON TO
FEAR THE WIND

GwE | Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence









The greatest impact on learning is the daily lived experiences of students in classrooms, and that is determined much more by **how** teachers teach than by **what** they teach."

— Dylan Wiliam, *Embedded Formative Assessment*


Copyrighted Material
VISIBLE LEARNING
A SYNTHESIS OF OVER
800 META-ANALYSES
RELATING TO ACHIEVEMENT
JOHN HATTIE
Copyrighted Material


Shirley Clarke
Outstanding
Formative
Assessment
Culture and Practice
WITH ONLINE
VIDEO CLIPS
HODDER
EDUCATION
LEARN MORE


EMBEDDING
FORMATIVE
ASSESSMENT
Practical
Techniques
for K–12
Classrooms
DYLAN WILIAM
& SIOBHÁN LEAHY


VISIBLE LEARNING
FOR TEACHERS
MAXIMIZING IMPACT ON LEARNING
JOHN HATTIE


UPDATED EDITION
MILLION-COPY BESTSELLER
'Essential reading for anyone with aspirations'
mindset
Changing the way you think to
fulfil your potential
DR CAROL S. DWECK


VISIBLE
LEARNING
FEEDBACK
JOHN HATTIE and SHIRLEY CLARKE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# DYSGU GWELEDOL / VISIBLE LEARNING…

| | |
|---|---|
| Assessment literate students | 1.44 |
| Providing Formative evaluation | 0.9 |
| Classroom discussion | 0.82 |
| Teacher/ student relationships | 0.75 |
| Feedback | 0.72 |
| Meta-cognitive strategies | 0.69 |
| Homework | 0.29 |
| Class size | 0.21 |
| Matching styles of learning | 0.17 |
| Ability grouping | 0.12 |
| Moving schools | -0.34 |

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding




*"Whatever the learner's age, the curriculum demands, the subject, the educational setting or testing arrangements, formative assessment is always relevant, as it revolves around the only focus that makes any sense: the empowerment of the learner. Once this becomes the prime focus of every teacher and pupil, with formative assessment as the driving and guiding force, outstanding achievement is not only possible, but highly probable."*

# “Conditions to be able to function as an active learner”  - Shirley Clarke

1. **Diwylliant o ddysgu, cefnogaeth emosiynol, hinsawdd**

- *Meddylfryd o dwf*
- *Metawybyddiaeth*
- *Dysgu gallu cymysg*

**2. Disgyblion yn rhan o’r cynllunio**

**3. Partneriaid trafod**



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**Sefydlu diwylliant/ hinsawdd dosbarth ar gyfer Asesu Ffurfiannol:**

- *Meddylfryd*
- *Pwerau Dysgu*
- *Parthau Dysgu*
- *Partneriaid Trafod*
- *Dileu grwpio gallu*



**THE NEW PSYCHOLOGY OF SUCCESS**

Mindset is a simple idea discovered by world-renowned Stanford University psychologist Carol Dweck in decades of research on achievement and success—a simple idea that makes all the difference.

Teaching a growth mindset creates motivation and productivity in the worlds of business, education, and sports

***"If teachers encourage students to believe that they can learn more and become smarter if they work hard and practice, Dweck's findings suggest, it is more likely that students will in fact learn more, and learn it faster and more thoroughly, than if they believe that learning is determined by how intelligent or unintelligent they are."***

***"Her work has also shown that a growth mindset can be intentionally taught to students"***

GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Ym mha feddylfryd ydych chi?

| | |
|---|---|
| Rwy’n teimlo’n glyfar pan fydd rhaid i mi feddwl yn galed, neu wynebu her | Rwy’n tueddu i roi’r gorau iddi os yw pethau yn mynd yn anodd, neu os y bydd rhaid i mi weithio’n galed |
| Rwy’n hoffi cael adborth adeiladol/beirniadaeth | Dim gwahaniaeth o gwbl os y byddaf yn methu |
| Rwy’n teimlo’n glyfar pan na fyddaf yn gwneud camgymeriadau | Gallwch ddatblygu eich deallusrwydd |
| Dydw i ddim yn poeni beth mae pobl eraill yn feddwl o’m ‘gallu’ | Rwy’n teimlo’n dwp pan fyddaf yn methu |
| Rwy’n poeni beth mae fy nghyfoedion yn feddwl o’m ‘gallu’. | Rwy’n meddwl bod pobl yn cael eu geni gyda maint penodol o ddeallusrwydd, ac na ellir newid hynny |

# Ym mha feddylfryd ydych chi?

| | |
|---|---|
| Rwy’n teimlo’n glyfar pan fydd rhaid i mi feddwl yn galed, neu wynebu her | Rwy’n tueddu i roi’r gorau iddi os yw pethau yn mynd yn anodd, neu os y bydd rhaid i mi weithio’n galed |
| Rwy’n hoffi cael adborth adeiladol/beirniadaeth | Dim gwahaniaeth o gwbl os y byddaf yn methu |
| Rwy’n teimlo’n glyfar pan na fyddaf yn gwneud camgymeriadau | Gallwch ddatblygu eich deallusrwydd |
| Dydw i ddim yn poeni beth mae pobl eraill yn feddwl o’m ‘gallu’ | Rwy’n teimlo’n dwp pan fyddaf yn methu |
| Rwy’n poeni beth mae fy nghyfoedion yn feddwl o’m ‘gallu’. | Rwy’n meddwl bod pobl yn cael eu geni gyda maint penodol o ddeallusrwydd, ac na ellir newid hynny |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| Meddylfryd Sefydlog | Meddylfryd o Dŵf |
|---|---|
| Mae deallusrwydd yn statig.<br>Rhaid i mi ymddangos yn glyfar! | Gellir ymestyn deallusrwydd.<br>Rwyf am ddysgu rhagor! |
| Osgoi her | Croesawu her |
| Rhoi'r gorau iddi'n rhwydd | Dyfalbarhau pan y cyfyd problemau |
| Gweld ymdrech fel rhywbeth dibwrpas | Gweld ymdrech fel y ffordd ymlaen |
| Osgoi beirniadaeth ddefnyddiol | Dysgu o feirniadaeth |
| ***Yn debygol o aros yn ei unfan/hunfan yn gynnar, a pheidio â gwireddu potensial*** | Carol Dweck<br>***Cyrraedd lefelau cyflawniad uchel*** |

# Camsyniadau am allu

**Gallu...**

- Rydym yn cael ein geni gyda gallu (neu heb allu), fel rhan o'n hetifeddiaeth genetig;
- Mae gan blant rhyfeddol allu aruthrol;
- Nid yw'n newid rhyw lawer dros amser.

**Syniadau diweddar...**

- Nid yw genynnau mor allweddol ag y tybiwyd yn hanesyddol;
- Y cydadwaith rhwng genynnau a'r amgylchedd sy'n hollbwysig;
- Datblygir gallu dros amser, ac mae ar allu uchel angen lefelau anghyffredin o gymhelliant ac ymarfer.

# Cynhwysion allweddol:

- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau penodol;
- Cymhelliant cryf;
- Llawer o ymarfer pwrpasol;
- Hyfforddi ac addysgu da






"Genius! For 37 years I've practised 14 hours a day, and now they call me a genius!

*Pablo Sarasate, violin virtuoso, 1895*

# In the fixed mindset,

## when you fail; you're a failure –

# In the growth mindset,

## when you fail; you're learning


I have not failed. I've just found 10,000 ways that won't work.
Thomas A. Edison
quotefancy


Secrets of Success
SUCCESS
By Chris Quigley
ChrisQuigley


THE GIRL WHO NEVER MADE MISTAKES
by MARK PETT and GARY RUBINSTEIN
ILLUSTRATED by MARK PETT


Katherine Muncaster
with Shirley Clarke
Growth Mindset Lessons
Every child a learner
with online video clips
RISING STARS


Your FANTASTIC ELASTIC BRAIN
Stretch It, Shape It
By
JoAnn Deak, Ph.D.
Illustrated by
Sarah Ackerley
Deak • Ackerley
YOUR FANTASTIC ELASTIC BRAIN

# Meddylfryd o Dwf - Carol Dweck

- Rydym i gyd yn gymysgedd o Feddylfryd o Dwf a Meddylfryd Sefydlog - yn staff a disgyblion

| **Beth sy'n achosi Meddylfryd Sefydlog?** | |
|---|---|
| Wynebu her | pryderus/ amau eich hun |
| Rhywbeth yn mynd o'i le | amddiffynol, colli amynedd |
| Derbyn beirniadaeth | blin, amddiffynnol |
| Gweld rhywun arall yn llwyddo | cenfigennus, cymhelliant yn pallu |

- Os yw athrawon mewn Meddylfryd Sefydlog,bydd y disgyblion hefyd ,felly hefyd y pennaeth a'r staff
- 'Talk the talk and walk the walk '


THE
LEARNING
POWER
APPROACH
Teaching Learners
to Teach Themselves
Guy Claxton
Foreword by Carol S. Dweck


Guy Claxton and Becky Carlzon
POWERING UP
CHILDREN
The Learning Power Approach
to Primary Teaching
Foreword by


Guy Claxton and Graham Powell
POWERING UP
STUDENTS
The Learning Power Approach
to High School Teaching


"A timely tour de force"
John Hattie
THE
FUTURE
OF TEACHING
AND THE MYTHS THAT HOLD IT BACK
GUY CLAXTON
Foreword by Dylan Wiliam

# Pwerau Dysgu - Guy Claxton

*‘Creating a Learning Powered Classroom isn’t just abut creating a feeling of safety and belonging*

*It’s about purposefully cultivating an ethos that is focused around pushing yourself, self improving and enjoying the struggle of learning ‘*

*Guy Claxton*



‘...major contribution to our understanding of how teachers can prepare young people not just for a life of tests but for the tests of life’

***John Hattie***




Figure 1.1: The Layers of Learning in the Classroom

*Source:* By kind permission of Juan and Becky Carlzon

# Pwerau dysgu...



**Dyluniodd y plant eu harcharwyr eu hunain i gynrychioli grymoedd dysgu**



Charli'r Llewpart Hela

sy'n 'Canolbwyntio'



Kate y Gath sy'n 'Cydweithredu'



Kevin y Ciwi sy'n 'Dal ati i Wella'



Cyrnol y Crocodeil

'Chwilfrydig'



Dani'r dolffin sydd byth

yn rhoi'r gorau iddi



Dylan y ci sy'n dysgu



Disney'r ddraig sy'n

'llawn dychymyg'



Hari'r Hipo sy'n

'rhoi tro arni'

Meddylfryd o Dwf

Pwerau Dysgu

# Ystyriaethau…

Iaith y dosbarth ac ymddygiad athrawon

# Iaith y dosbarth a'i effaith

*'Get everybody talking learnish'*

*Guy Claxton*

*'Live it , not laminate it '*

*Guy Claxton*

*'To build growth mindsets we have to change the cultural mindsets in our classrooms . We have to act and talk in ways that demonstrate our belief that all students can and will get smarter , and set the tasks accordingly.'*

*' "Growth Mindset lite" approach has little or no effect'*
*Ron Berger*

# Ieithwedd dysgu

- Yn hytrach na chyfeirio at **'waith',** defnyddio **'ddysgu'**
- **'Beth ydy'** **-** yn cau'r meddwl **-** **'beth all '** yn ei agor e.e**.** beth all y datrysiad i'r broblem yna/ yr ateb fod?
- Grym 'eto' (Yet)
- Beth am ddweud ... Beth os....
- 'Sgwn i....( 'wonder')
- 'Gwella/Gwella dy allu i' yn hytrach na 'chywiro dy gamgymeriadau'
- Ailfeddyliwch am eich defnydd o iaith am **'allu' –** *gallu uwch, dawnus(gifted), naturiol dda am, llai galluog, gwan* - felly hefyd ***lefelau a thargedau*** **-** beth am y 'person' ?
- Peidiwch â gweithredu fel petaech yn gwybod yn sicr beth mae plentyn yn gallu ei wneud

# Yng nghrombil dysgu

- *Beth ydy dy gynllun ar gyfer mynd i'r afael â hyn?*
- *Beth allet ti drio?*
- *Beth yn union dwyt ti ddim yn ei ddeall?*
- *Sut wnest ti hynna?*
- *Wyt ti'n iawn i gario ymlaen dy hun am ychydig?*
- *Sut allet ti helpu rhywun arall i ddeall hynny?*
- *Beth yw'r darnau anodd? Beth sy'n anodd amdanyn nhw?*
- *Sut allwn i fod wedi dy ddysgu'n well?*
- *Sut allet ti wneud hyn yn anoddach i ti dy hun?*
- *Llongyfarchiadau i ti am ganolbwyntio drwy’ holl bethau all fod wedi tynnu dy sylw*
- *Be am i ni drio gweld beth yn union sy’n gwneud hwn yn anodd i chdi, a beth all dy helpu i gael gafael arno*

# Llai o bwyslais ar chwilio am yr atebion cywir

- *Trafodwch werth camgymeriadau -  cyfle i ddysgu*
- *‘Diddorol iawn’*
- *Sut gyrhaeddaist ti’r datrysiad yna?*
- *Sut gefaist ti hynna?*
- *Pam datrys y phroblem y ffordd yna?*

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence





Dyffryn Dysgu
Mi wnai i setlo am her hawdd i gael gorffen y gwaith yn gynt.
Meddwl Segur
Does gen i ddim amynedd i wneud yr her anoddaf.
Dydw i ddim eisiau herio fy hun rhag ofn i mi wneud camgymeriad.
Dim Her
Dim Her
Rhaid i mi ddal ati er mwyn dysgu sut i wneud hyn.
Rhaid cymryd amser ac ymdrech i wneud rhywbeth newydd.
Mi wnai fynd am yr her i ddatblygu fy ymennydd.
Meddwl Medrus
Aros yn yr un lle
Anwybyddu cyngor
Gweld ymdrech yn ddi-werth
Rhoi fyny
Osgoi her
Mae'r gwaith yma'n rhy anodd.
Rydw i am roi'r ffidil yn y to.
Os wnai gamgymeriad byddaf yn gwella ac yn dysgu mwy.
Rydw i am wneud fy ngorau glas.
Eisiau dysgu mwy
Derbyn ac ymateb i gyngor
Ymdrechu er mwyn ceisio llwyddo
Dyfalbarhau
Mwynhau Her
Negyddol
Positif
Ysgol Esceifiog

| YN HYTRACH NA DWEUD: | CEISIA FEDDWL A DWEUD: |
| --- | --- |
| Dydw i ddim yn dda am wneud hyn | Ydw i wedi methu rhywbeth? |
| Dydw i ddim am drio ddim mwy | Dwi'n mynd i drio rhywbeth gwahanol |
| Mi wneith hyn y tro | Ai dyma'r gorau allai wneud? |
| Allai ddim gwneud yn well na hyn | Mae yna wastad le i wella |
| Mae'r gwaith yn rhy anodd | Mae hyn yn mynd i gymryd amser |
| Dwi wedi gwneud camgymeriad | Mae camgymeriadau yn ein helpu i ddysgu |
| Allai ddim gwneud hyn | Dwi'n mynd i hyfforddi fy ymennydd |
| Dydw i ddim yn glyfar | Dwi'n mynd i ddysgu suut i wneud hyn |
| Wnaeth hyn ddim gweithio tro cynta | Rwan dwi'n mynd i drio eto |
| Mae fy ffrind yn gallu gwneud y | Dwi'n mynd i ddysgu gan fy ffrind |

# Athrawon y prosiect

*Mae plant yn herio'u hunain i raddau mwy mewn gwersi mathemateg. Mae agweddau tuag at ddysgu ym mhob maes cwricwlwm yn fwy cadarnhaol*

*Mae Meddylfryd o Dwf yn datblygu i fod yn destun trafod yn ystafell y staff yn ogystal ag yn destun trafod ymhlith disgyblion. Mae iaith Meddylfryd o Dwf yn cael ei sefydlu i raddau mwy ar draws yr ysgol*

*Plant yn ymwybodol o sut ddysgwyr ydyn nhw, ac yn sgil hynny, yn gallu newid agwedd/meddylfryd pan fo angen*

# Athrawon y prosiect

*Rydym yn dathlu camgymeriadau yn y dosbarth a phwysleisio'r ffaith ein bod yn dysgu oddi wrth gamgymeriadau. Mae hyn yn gwneud y plant yn fwy hyderus wrth fentro i gwblhau tasgau yn annibynnol gan wybod y byddwn yn dysgu ein gilydd drwy edrych ar y camgymeriadau.*

*Mewn rhai achosion y rhan mwyaf heriol o hyn yw newid meddylfryd y staff addysgu. Mae'n rhaid i  bob aelod o staff ddangos meddylfryd twf eu hunain cyn y gallant ei ddatblygu yn eu disgyblion.*

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Partneriaid trafod

# Gweithredu Partneriaid Trafod yn effeithiol

- Trafod gyda'r disgyblion/esbonio
- Dewis ar hap - esbonio
- Newid yn wythnosol (uwchradd 3 wythnos)
- Gosod y dosbarth fel bod pawb yn wynebu'r tu blaen
- Plant ifanc i eistedd ar y carped yn wynebu ei gilydd - modelu
- Llunio MPLl Partneriaid Trafod
- Hyfforddi a digon o gyfleoedd i ymarfer.
- Rhannu profiadau ar ôl gweithredu (fesul wythnos ar y cychwyn) Angen hyn ar lefel staff hefyd ar y cychwyn.
- Gallu bod mewn 3 os angen cefnogaeth iaith

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# MPLl posib ar gyfer partneriaid

- Cyswllt llygaid da
- Cymryd tro
- Gwrando’n ofalus
- Bod yn gwrtais
- Disgwyl i’ch partner orffen
- Dweud wrth eich partner beth oeddech yn ei hoffi am weithio gyda nhw.


Partneriaid trafod
dim siarad ar draws
canolbwyntio
trio ein gorau
parchu
siarad yn glên
Beth sy'n gwneud Partner Trafod da?
gwrando
cysylltu pengliniau, llygaid, ymennydd
cadw dwylo i ni ein hunain
dim chwerthin am ben eraill


Talking Partners
Take turns to speak
Wait for your partner
Tell them what you liked
Listen carefully
Be polite
Give positive and constructive
Good eye contact
FEEDBACK

# Partneriaid Trafod – gweithredu

- Gweithredu drwy’r ysgol - neb rhy ifanc na rhy hen
- Cyfnod Sylfaen “Link eyes, link hands link brains”
- Disgyblion i  eistedd gyda'u partneriaid trafod ym mhob gwers.
- Sicrhau gweithgarwch partneriaid yn eich gwersi pan yn cynllunio
- Defnyddio sawl gwaith mewn gwers am gyfnodau byr e.e 30 eilaid i siarad efo’ch partner
- Sesiynau hirach hefyd  – adborth, craffu ar waith ayb.
- “nodyn cyfarch“ ar ddiwedd yr wythnos  - adborth i’r partner

One week my talk partner was someone a that I can be silly with. I thought yn teacher would not let it happen  but she said that talk partners always stayed with who was pulled out of the hat. We worked really well together and surprised everyone

Talk partners are really helpful because sometimes I do not know the answer to a question straight away and talking to someone else about it means I can get to the answer without being told it'

# Effaith partneriaid trafod 'ar hap'

- Athrawon yn siarad llai– mwy o ffocws i drafodaeth yn y dosbarth
- Athro yn gwrando a chael darlun gwell o ddealltwriaeth a dysgu'r disgyblion a lle mae nhw angen mynd nesaf
- Mae'n arwain at adborth mwy uniongyrchol ac yn galluogi athrawon i addasu eu dysgu i sicrhau cynnydd disgyblion
- Bob plentyn yn dod â chryfderau gwahanol i'r bartneriaeth
- Dyfnhau eu dysgu eu dealltwriaeth a'u cofio drwy roi llais i'w meddyliau
- Dysgu oddi wrth gyfoedion - mae dysgu plentyn arall yn cyfoethogi a chadarnhau'r dysgu i'r "athro" ac yn rhoi persbectif arall ar y dysgu i'r partner
- Cyfle i bob plentyn flasu llwyddiant – cryfhau hunan ddelwedd a hyder

# Effaith partneriaid 'ar hap'

- Dim labelu - mwy cynhwysol
- Gwelliant mewn ymddygiad
- Cynnydd mawr mewn ymlyniad a chymhelliant – grymuso disgyblion
- Cynnydd mewn gwaith tîm a chydweithio effeithiol
- Aeddfedrwydd mewn perthnynas waith disgyblion yn y dosbarth
- Mwy o amser meddwl a chyfle i rannu syniadau
- Cynnydd mewn hunan ddelwedd
- Cyfeillgarwch newydd
- Disgyblion yn parchu ei gilydd a'u hymdrechion yn well

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Dileu grwpiau gallu

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# VISIBLE LEARNING...

| | |
|---|---|
| Assessment literate students | 1.44 |
| Providing Formative evaluation | 0.9 |
| Classroom discussion | 0.82 |
| Teacher/ student relationships | 0.75 |
| Feedback | 0.72 |
| Meta-cognitive strategies | 0.69 |
| Homework | 0.29 |
| Class size | 0.21 |
| Within class grouping | 0.16 |
| Ability grouping | 0.12 |
| Moving schools | -0.34 |

# Grwpio yn ôl gallu– y dystiolaeth yn ei erbyn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

‘Ability grouping has minimal effects on learning outcomes and profound negative equity effects.’

(0.12) Hattie, J. 2009

‘The evidence is robust and has accumulated over at least 30 years of research …..If schools adopt mixed ability, they are more likely to use inclusive teaching strategies and to promote higher aspirations for their pupils.’

Sutton Trust Report 2011

‘These studies have repeatedly found that the more schools group by ability, the lower the pupil performance overall.’

*PISA studies (2012)*

‘Highly controlled studies suggest that ability grouping has little overall effect on students’ academic performance…..Greater use should be made of peer co-learning, since these approaches can enhance the learning of all pupils.’

*Baines, Ed (2012)*

*‘The adoption of structured  ability groupings has no positive effects on attainment but has detrimental affect on the social and personal outcomes for some children’*

The Primary review, 2008

*‘Researchers in England  (Dixon. A Editorial FORUM, 2002) found that 88% of children placed into ability groups at age 4 remain in the same groupings until they leave school. This is one of the most chilling statistics I have ever read’*

Joe Boaler,  The Elephant in the Classroom,2009

## Heriau wedi eu gwahaniaethu



# Pa bryd mae arferion wedi  gwreiddio?

Lle ydych chi arni?

- Dwi’n ei wneud yn barod, yn reddfol a hyblyg
- Dwi’n ei wneud o weithiau, ond gallwn wneud mwy
- Dwi ddim yn ei wneud o, ond fe hoffwn ei wneud
- Dwi ddim eisiau ei wneud o


The Magic-Weaving Business
Finding the heart of learning and teaching
Sir John Jones
Foreword by Michael Fullan


WHEN THE ADULTS CHANGE EVERYTHING CHANGES
PAUL DIX
SEISMIC SHIFTS IN SCHOOL BEHAVIOUR


DANIEL T. WILLINGHAM
WHY DON'T STUDENTS LIKE SCHOOL?
A COGNITIVE SCIENTIST ANSWERS QUESTIONS ABOUT HOW THE MIND WORKS AND WHAT IT MEANS FOR THE CLASSROOM


Jo Boaler
THE ELEPHANT IN THE CLASSROOM
Helping Children Learn and Love Maths
5x7=
16÷4=
1-3/8=
A=4?r²
REVISED AND UPDATED


THE LEARNING RAINFOREST
GREAT TEACHING IN REAL CLASSROOMS
TOM SHERRINGTON

